**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-987
Ein cyf/Our ref RE/00453/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor
Deisebau

14 Gorffennaf 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr, yn rhinwedd eich rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, ynglŷn ag ardrethi annomestig a'r cymorth i fusnesau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na fydd pob busnes yn elwa ar y cynllun rhyddhad ardrethi, a'r cymorth grant sy'n gysylltiedig ag ardrethi, a ddarperir fel rhan o'r ymateb i bandemig y coronafeirws. Mae'r pecyn cymorth wedi cael ei gynllunio i fod yn fforddiadwy o fewn y cyllid sydd ar gael, ac er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb wrth weinyddu'r cynlluniau, nid oes unrhyw fwriad i ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd.

Mae'r awdurdodau lleol wedi bod yn gweinyddu cynlluniau grantiau ardrethi annomestig mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac ar ei rhan. Drwy gydweithio ar hynny, maent wedi cyflawni gwaith gwych, gan ddosbarthu dros 60,000 o ddyraniadau a thros £729 miliwn o gyllid cymorth ers i'r argyfwng ddechrau ym mis Mawrth.

Byddwch yn gwybod am y canllawiau y mae Gweinidogion Cymru wedi eu cyhoeddi mewn perthynas â'r cynlluniau grantiau ardrethi annomestig. Mae ein partneriaid awdurdodau lleol, er bod ganddynt y disgresiwn i ddweud a ddylai grant gael ei ddyfarnu ai peidio, yn cadw at y canllawiau hyn wrth iddynt weithredu'r cynlluniau. O ran arcedau difyrion yn benodol, a busnesau tebyg, mae awdurdodau lleol yn ystyried yn fanwl yr amodau canlynol cyn dyfarnu cyllid grant:

1. Mae gan bob busnes sy'n derbyn rhyddhad ardrethi busnesau bach yr hawl i gael grant o £10,000. Mae hynny'n golygu y gallai busnesau gamblo bach sy'n elwa ar y rhyddhad ardrethi a roddir i fusnesau bach hefyd fod yn gymwys i gael grant.

2. Mae arcedau, y gellir eu categoreiddio'n fusnesau sy'n cynnig difyrion yn hytrach na busnesau gamblo, yn cael eu hystyried yn fusnesau hamdden. Gallant felly fod yn gymwys i gael grant, naill ai drwy'r llwybr rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, neu, os bydd gwerth ardrethol y safle yn eu gwneud yn gymwys, gallant fod yn gymwys i gael y grant mwy o £25,000.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

3. Nid yw busnesau gamblo (sydd wedi eu lleoli fel arfer yng nghanol dinasoedd, er y gallent fod mewn mannau eraill hefyd), y mae mynediad iddynt wedi ei gyfyngu i bobl 18 oed ac yn hŷn, ac a) nad ydynt â’r hawl i gael rhyddhad ardrethi i fusnesau bach a b) gamblo yn hytrach na difyrrwch yw eu prif weithgarwch, yn gymwys i gael y grant manwerthu, hamdden a lletygarwch. Mae canllawiau’r cynllun ardrethi annomestig ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch – 2020-21, yn dweud yn benodol nad yw’r cynllun yn cynnwys hereditamentau gamblo.

Mae wedi cael ei wneud yn glir i awdurdodau lleol fod Gweinidogion yn cefnogi’n llawn y defnydd o’u pwerau yn ôl disgresiwn i ddyfarnu grantiau ardrethi annomestig ai peidio, yn seiliedig ar y canllawiau perthnasol.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd